

DAVIES, Syr WILLIAM LLEWELYN (1887 - 1952), ysgolfeistr a llyfrgellydd

Enw: William Llewelyn Davies

Dyddiad geni: 1887

Dyddiad marw: 1952

Priod: Gwen Davies (née Llewelyn)

Rhiant: Jane Davies (née Evans)

Rhiant: William Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgolfeistr a llyfrgellydd

Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Gildas Tibbott

Ganwyd 11 Hydref 1887, yn Nh 'r Ysgol, Plas Gwyn, ger Pwllheli, Sir Gaernarfon, yn drydydd plentyn a mab ieuangaf William Davies a Jane (ganwyd Evans) ei wraig, y ddau yn enedigol o Lanafan yng Ngheredigion. Buasai'r tad yn giper ar stad Trawscoed cyn symud i gyffelyb swydd ar stad Broom Hall. Pan oedd y mab yn 5 mlwydd oed aeth y tad i wasanaeth [Sir Osmond Williams](#), Castell Deudraeth, ac ymgartrefodd y teulu ym Minffordd, Penrhyndeudraeth. Cafodd Williams ei addysg yn ysgol sir Porthmadog o 1900 i 1903 ac yng nghanolfan disgybl-athrawon Penrhyndeudraeth, tra oedd yn ddisgybl-athro yn ysgol elfennol y Penrhyn, o 1903 i 1906. Aeth wedyn i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a graddio yn B.A. yn 1909 gydag anrhydedd ail ddsbarth mewn Cymraeg. O Hydref 1909 i Chwefror 1910 bu'n athro cynorthwyol yn ysgolion gramadeg y Bermo a Dolgellau cyn cael swydd athro cynorthwyol trwyddedig (cawsai dystysgrif y Bwrdd Addysg yn 1909) yn ysgol y bechgyn ym Maenofferen. Yn 1912 cafodd radd M.A. am draethawd ar ' Phylipiaid Ardudwy: with the poems of Siôn Philip in the Cardiff Free Library collection ', a symudodd i Gaerdydd i fod yn athro cylchynol Cymraeg mewn ysgolion ac ysgolion nos. Yn 1914-17 yr oedd yn athro cynorthwyol yn ysgol uwchradd Canton, ac o 1914 i 1920 bu'n arholwr cynorthwyol mewn Cymraeg i Fwrdd Canol Cymru. Am ysbaid yn 1916 bu'n ddarlithydd cynorthwyol mewn Celteg yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Yn y cyfnod hwn bu'n cydweithio ag [E.T. Griffiths](#) ar lyfrau dysgu Cymraeg: *A junior Welsh course for infants and junior classes in elementary schools* (1914) a *The tutorial Welsh course* mewn 2 ran (1914, gydag adargraffiadau tan 1926). Yn 1917 ymunodd â'r Royal Garrison Artillery, a chafodd gomisiwn yn y gwasanaeth addysgol yn nes ymlaen.

Ym mis Medi 1919 penodwyd ef yn llyfrgellydd cynorthwyol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yno y bu hyd derfyn ei oes. Yn 1930, etholwyd ef yn brif lyfrgellydd ar ymddeoliad [Syr John Ballinger](#). Ymroes i gasglu a diogelu llawysgrifau a chofysgrifau a oedd ar wasgar yng Nghymru, a thu allan iddi, ac yn y cyfnod hwnnw o ddirwasgiad economaidd, a thrwy gydol Rhyfel Byd II, a oedd mewn perygl mawr rhwng chwalu ystadau, cau tai pendefigion, a'u meddiannu gan awdurdodau milwrol, a dinistr o'r awyr. Cadwodd y Llyfrgell mewn cyswllt agos â sefydliadau a chyrrff gyda chyffelyb amcanion drwy ei aelodaeth o'r Historical MSS Commission, Society of Antiquaries, pwyllgor gwaith y Council for the Preservation of Business Archives a'r British Records Association yr oedd ef, fel cynrychiolydd diddordebau Cymru, yn un o'i is-lywyddion. Fel prif weinyddwr LI.G.C. yr oedd yn gyfrifol am drefnu benthyg llyfrau i ddsbarthiadau oedolion drwy Gymru gyfan, am weithredu Cynllun Taleithiol Llyfrgelloedd Cymru a Mynwy mewn un sir ar ddeg, ac am ddewis, sicrhau a dosbarthu llyfrau i sanatoria Cymru. Yn ystod Rhyfel Byd II sefydlodd bwyllgor i gyflenwi llyfrau i fechgyn a merched yn y lluoedd. Rhoes loches yn y Llyfrgell i drysorau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd o ardaloedd agored i ymosodiadau o'r awyr. Cymerodd fantais ar bob cyfle drwy ddarlithiau, sgysiau radio, a chyhoeddiadau i ddwyn y Llyfrgell yn nes at bobl Cymru. Yn 1937 cyhoeddodd *The National Library of Wales: a survey of its history, its contents, and its activities*, a dwy flynedd wedyn sefydlodd *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, a pharhau i'w olygu am 14 blynedd. Bu'n olygydd mygedol y *Jnl. of the Welsh Bibliographical Soc.*, 1932-49, *Cardiganshire Antiquarian Society Transactions* (a alwyd *Ceredigion* yn 1950), hyd 1951, a *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Meirionnydd*, 1949-51. Yr oedd yn gyd-olygydd y *Bywgraffiadur Cymreig*, 1953. Cyhoeddodd lawer o erthyglau llyfryddol a hanesyddol i gyfnodolion, ac yr oedd yn aelod o lawer o gyrff academiaidd a diwylliannol. Urddwyd ef yn farchog yn 1944, a rhoes Prifysgol Cymru radd LL.D. er anrhydedd iddo yn 1951. Yn 1952 ef oedd uchel siryf Meirionnydd.

Priododd yn 1914 â Gwen, merch Dewi Llewelyn, groser a phobydd ym Mhontypridd, ac ychwanegodd Llewelyn at ei enw. Bu iddynt un ferch. Bu farw yn ei gartref, Sherborne House, Aberystwyth, 11 Tachwedd 1952, a gwasgarwyd ei lwch ar erddi'r Llyfrgell Genedlaethol.

Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

Ffynonellau

The Times, 12 Tachwedd 1952

Journal of the Welsh Bibliographical Society, 7 (1953)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953

gwybodaeth bersonol

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Llewelyn Davies](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [12672499](#)

Wikidata: [Q8014630](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

